



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 22AIN MAWRTH, 2018

Lleoliad

Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR

Pwynt Cyswllt

Glynda O'Brien

01341 424301

GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHUYD: 14.03.18)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Y Cyng. Dewi Owen
Y Cyng. Anne Lloyd Jones
Y Cyng. Mike Stevens

Aelodau Cyfetholedig:

Y Cyng. Bob Tyrrell
Nick Dawson
David Williams
Huw Evans

Nigel Willis
Desmond George
Cynghorydd Brian Bates

John Eddington

Cyngor Cymuned Aberdyfi
Aelod o Outward Bound Wales
Aelod o Bwyllgor Gwelliannau Aberdyfi
Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae
Ceredigion
Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi
Aelod o Glwb Hwyllo Dyfi
Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad
Achub
Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi

Sylwedyddion:

Y Cyng. Peter Read
Dr John Jones-Morris

Y Cyng. Rob Triggs
Y Cyng. Ioan Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr
Porthmadog
Cyngor Tref Abermaw
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

4 - 11

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2017.

(Copi'n amgaaedig)

5. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG 12 - 32

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

(Copi'n amgaaedig)

6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 2 Hydref 2018.

Eitem 4

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 23 Tachwedd 2017 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi

YN BRESENNOL

Y Cyng. Dewi Owen, Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Brian Bates (Bad Achub), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwyllo Dyfi), Al Crisp (Outward Bound).

Sylwedyddion: Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)
Y Cyng. Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
William Stockford	-	Harbwr Feistr Aberdyfi
Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau
Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet Economi), Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cyngorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cyngorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

3. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2017.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

4.1 Materion yn codi o'r cofnodion – Eitem 4 (d) (i) Wal y Cei

Nododd y Cadeirydd siom na oedd yn bosibl i swyddog Ymgynghoriaeth Gwynedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i roi diweddariad peirianyddol ar ddatblygiad gwaith i wal y cei. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda swyddogion Uned Ymgynghoriaeth Gwynedd ac fe adroddodd ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa diweddaraf sef bod bras amcan gyfrif y cynlluniau diwygiedig o ail-ddatblygu wal y cei ar gost o £2.2m. Ar hyn o bryd, gellir cael

oddeutu 75% o'r costau drwy grantiau ac arian Ewrop ond bod diffyg o 25% sydd yn cyfateb i £500,000. Yn y cyfarfodydd diwethaf fe drafodwyd y posibilrwydd o ddenu trydydd parti i gyfrannu at y costau ac fe fyddai modd trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Awgrymwyd bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y gofyn am gefnogaeth ariannol bosibl a bod y wybodaeth hyn yn cael ei amlygu i aelodau o'r holl gymdeithasau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Harbwr. Deallwyd yr amlygwyd pryder gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â'r bwriad i ymestyn y strwythur presennol allan oddeutu medr i'r môr ac y byddai'n effeithio ar gynefinoedd, ond bellach deallir eu bod yn hapus gyda'r cynlluniau diwygiedig. Deallir ymhellach y bydd y cais yn cael ei gyflwyno a'i ystyried gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sef yr Awdurdod Cynllunio yn Aberdyfi yn fuan.

Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trefnu bod copiau o'r cynlluniau ar gael i'w gweld yn swyddfa'r Harbwr Feistr ac y byddai'n cylchredeg nodiadau o'r broses sydd wedi digwydd yn yr wythnosau nesaf. Nodwyd y byddai'n heriol i geisio canfod £500,000 gyda'r bwriad i edrych ar bob ffynhonell ariannol bosibl.

O safbwynt amserlen, hyderir y gellir dechrau ar y gwaith ym mis Ebrill 2019.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- O safbwynt denu cyfraniad lleol, teimlwyd bod £500,000 yn heriol ac a fyddai modd i'r Cyngor ystyried ffynhonnellau o gyfeiriad ffrydiau twristiaeth
- Bod 2018 yn cael ei ddynodi yn Flwyddyn y Môr a phwy a wyr efallai y byddai adnoddau ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Cytunwyd yn y gorffennol bod y cei yn adnodd bwysig i Aberdyfi yn enwedig ar gyfer cynnal busnesau, sefydliad y Bad Achub a.y.b.
- Bod Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas wedi ei benodi'n ddiweddar yn Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, ac y byddai o fudd cynnal trafodaeth gydag ef ynghylch unrhyw gymorth y gallasai awgrymu
- Nad oedd yn opsiwn i beidio adnewyddu wal y cei, neu fe fyddai'n disgyn i'r môr ond bod y llwybr i gyrraedd y nod yn anodd

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod ac edrychir ymlaen i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ym mis Mawrth 2018.

(b) Bod y cynlluniau diwygiedig ac adroddiad diweddaraf ar gael yn Swyddfa'r Harbwr Feistr ar gyfer eu harchwilio ymhellach gan aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ac Aelodau o'r cyhoedd.

4.2 Eitem 4 (d) (ff) – Tir Comin / tir ystorfa, gwastraff

Adroddwyd bod y tir uchod yn parhau yn broblemus gyda'r cyhoedd yn gwaredu pob math o ysbwriel yn anghyfreithlon ar y tir, gan gynnwys oergelli, rhewgelli, asbestos a.y.b.

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod asbestos ar y tir sydd yn gorfod cael ei waredu gan arbenigwyr ac yn unol â chanllawiau llym. Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi neilltuo oddeutu £10,000 wrth gefn ar gyfer y gwaith clirio gyda thua £8,000 yn ychwanegol ar gyfer gosod ffens bwrpasol fel bo neb yn gallu gwaredu ysbwriel neu gwneud unrhyw ddfnydd o'r tir heb ganiatad i'r dyfodol. Hyderir y bydd y safle wedi ei glirio erbyn dechrau mis Ebrill 2018. Erbyn diwedd yr haf mawr obeithir fe fydd llecyn taclus ar gael yn yr ardal i gadw cawelli ac offer pysgotwyr sydd yn gweithio yn rheolaidd allan o harbwr Aberdyfi. Roedd y Gwasanaeth mewn trafodaeth gyda chwmni gwaredu o Gaernarfon er ceisio amcan bris i waredu'r gwastraff.

Nododd cynrychiolydd y Clwb Hwyllo bod ganddynt les ar gyfer rhan bach o'r tir ac y byddai'r Clwb yn fodlon cyfrannu yn ariannol ac yn ymarferol ar waredu'r gwastraff anghyfreithlon. Gofynwyd bod y cynrychiolydd yn cylch redeg copi o'r brydles l swyddogion ar y cyfle cyntaf

Nododd Aelod unwaith y bydd y tir wedi ei glirio, fe fydd yn adnodd gwerthfawr a diogel ar gyfer cadw celfi swyddogol ac mewn lleoliad delfrydol.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol bod angen i bysgotwyr sicrhau fod eu holl eiddo, gan gynnwys offer pysgota o unrhyw fath, wedi ei storio mewn ffordd daclus. Fe fydd unrhyw offer sydd yn cael ei adnabod fel defnydd na fyddai wedi cael ei ddefnyddio neu ei gynnal a chadw ers amser yn cael ei waredu.

Awgrymodd Aelod y gellir canfod pwy sydd yn gwaredu'n anghyfreithlon drwy ymchwilio i'r rhifau cyfresol ar y deunyddiau.

Nodwyd fel mater o wybodaeth bod cwmni "Clarach Waste Services" ar gael yn Aberystwyth sydd yn cynnal gwasanaeth wythnosol i Dywyn ac efallai y byddai'n werth cysylltu â hwy am bris i waredu'r ysbwriel.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

5. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddarur'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(a) Atgoffwyd yr Aelodau bod angen cyflwyno cyfansoddiad a chofnodion blynyddol cyfredol y mudiadau / sefydliadau maent yn gynrychioli ar y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr er mwyn sicrhau aelodaeth cymwys o'r Pwyllgor yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd yn 2014. Rhestrwyd y mudiadau hynny nad oedd wedi anfon y dogfennau perthnasol fel a ganlyn:

- Pwyllgor Gwelliannau Aberdyfi
- Cymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion
- Clwb Cychod Aberdyfi
- Clwb Hwyllo Dyfi
- Clwb Rhwyfo Aberdyfi

Deallir nad yw Partneriaeth Aberdyfi na Siambr Fasnach Aberdyfi yn bodoli mwyach.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a disgwylir i'r mudiadau uchod anfon y dogfennau perthnasol ymlaen i'r Swyddog Cefnogi Aelodau.

(b) O safbwynt niferoedd angorfeydd yn yr Harbwr gwelwyd leihad o 1 o'i gymharu â 2016 gyda chynnydd yn y badau dŵr personol. Siomedig fu'r tywydd a oedd yn cael effaith ar yr harbyrau ar draws y Sir ond braf ydoedd nodi bod cychod o Gonwy wedi ymweld â harbwr Aberdyfi a hyderir y byddent yn ymweld eto i'r dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(c) **Cod Diogelwch Morwrol**

Derbyniwyd archwiliad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ac yn deillio o'u hadroddiad cyfeiriwyd at fân elfennau a oedd angen sylw yn Harbwr Aberdyfi megis tacluso o amgylch y cei

gan fod nwyddau a rhaffau wedi eu cadw mewn ffordd a allasai achosi risg. Fe fydd yr archwilwyr yn ymweld a'r gwasanaeth ymhen blwyddyn a'r bwriad ydoedd gwahodd aelodau'r Pwyllgorau Harbwr i un cyfarfod canolog er mwyn derbyn gwybodaeth gan yr archwilwyr ynglyn â phrif materion y Cod Diogelwch. Rhagwelir bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bod yr Outward Bound yn cydweithio'n dda gyda staff yr Harbwr o ran unrhyw weithgareddau
- Dymuniad i weld yr angorfeydd yn y manau lle roeddynt oddeutu 15 mlynedd yn ôl
- O safbwynt diogelwch, gofynnwyd a oedd unrhyw broblem yn deillio o ddefnydd badau dŵr personol

Ymatebodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Harbwr Feistr i'r uchod fel a ganlyn:

- (i) Tra'n cydymdeimlo gyda'r Clwb Hwyllo o safbwynt gofod iddynt yn yr aber yn sgil gosodiad yr angorfeydd, eglurwyd bod y sianel yn culhau a'r Harbwr Feistr yn ceisio ei orau i beidio cymryd gormod o le a gwerthfawrogir y cydweithrediad parod gan y Clwb Hwyllo ar bob achlysur
- (ii) Gwelwyd gwelliant o ran problemau gyda'r badau dŵr personol ac unwaith y derbynir trefniant cenedlaethol, fe ellir anfon neges allan i phob morwr

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ch) Mordwyo

Adroddwyd bod yr Harbwr Feistr yn gwneud ei orau i gadw'r cymhorthyddion ar safle a sicrhawyd y byddai Bwi Rhif 2 ar y safle cyn Gwyl Y Pasg.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(d) Cynnal a Chadw

Amlinellodd yr Harbwr Feistr ei raglen waith dros gyfnod y gaeaf fel a ganlyn:

- Gwaith atgyweirio ym Mryn Llestair (Picnic Island)
- Gwaith ar Bwi y Fairway a Bwi Rhif 2
- Atgyweirio'r cwch
- Gwaith o hyn tan y Nadolig yn gosod pren i'r lanfa

Nododd y Swyddog Morwrol mai 6 cerbyd sydd gan y Gwasanaeth ond nad oedd 'run cerbyd yn Aberdyfi nac Abermaw. Mawr hyderir y bydd cerbyd ar gael cyn Nadolig ac un i Abermaw erbyn flwyddyn newydd. Roedd yr Harbwr Feistr wedi bod yn defnyddio ei gerbyd ei hun i glirio anifeiliad oddi ar y traeth megis defaid, llamhidyddion, a.yb.

O safbwynt y llwybr pren ar draws y llain golff, bod angen cysylltu â chyrrff perthnasol am gyfraniadau ariannol i'w atgyweirio. Roedd y llwybr wedi bod ar gau ond hyderir y gellir gwneud gwaith ddechrau'r flwyddyn newydd.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn anodd deall pam ei fod wedi cymryd cyhyd i gael cerbyd i Aberdyfi ac yn enwedig yr angen o'i ddefnydd ar dywydd garw. Ychwanegodd Aelod arall bod cyfrifoldebau'r Harbwr Feistr yn ymestyn cyn belled â Fairbourne ac roedd yn hanfodol iddo gael

cerbyd i fedru ymgymryd â'i ddyletswyddau. Awgrymwyd y dylid dwyn y mater i sylw'r Aelod Cabinet Economi a phwysleisio'r ffaith bod gwir angen cerbyd ar gyfer yr Harbwr Feistr yn Aberdyfi.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(dd) **Materion Staff**

Adroddwyd bod y bartneriaeth gyda'r Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn gweithio'n wych a'r cyfnod cyflogaeth wedi ymestyn tan diwedd Rhagfyr.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol i ddiolch i'r Harbwr Feistr a'r staff am eu gwaith clodwiw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(e) **Materion harbwr a thiroedd**

(i) Adroddwyd bod cawelli yn cael eu storio ar y cei a phwysleiswyd yr angen am gydweithrediad y pysgotwyr i'w cadw yn daclus er diogelwch y cyhoedd. Hyderir i'r dyfodol y gellir cael lle diogel ar y tir comin ar gyfer eu storio. Pwysleiswyd yr angen hefyd i'r defnyddwyr masnachol beidio parcio cerbydau ar ochr y cei am gyfnodau hir, eto oherwydd diogelwch risg i'r cyhoedd, heblaw ar gyfer llwytho a dad-llwytho nwyddau neu bysgod. Bydd yn rhaid i'r trefniadau newid yn 2018 ac efallai y gellir cael trefniant ar gyfer cael tocyn parcio iddynt i barcio yn y maes parcio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:

- bod cawelli ac offer pysgota yn nodweddol o Harbwr gweithiol
- pwysgirwyd i gael presenoldeb cynrychiolaeth o'r gymdeithas pysgotwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Awgrymwyd i gysylltu â chynrychiolydd y Gymdeithas Pysgotwyr ar ran y Pwyllgor i ofyn a fyddai modd enwebu eilydd ymhlith y pysgotwyr lleol i fynychu ar ei ran pe byddai angen
- bod materion diogelwch yn hynod bwysig ac roedd nifer o gynlluniau dros y blynyddoedd wedi dwyn ffrwyth i geisio gwella diogelwch y cyhoedd, megis siacedi achub addas, a.y.b. Deallir bod Llywodraeth yr Alban yn cyflenwi siacedi achub am ddim a hyderir y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un trywydd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a chysylltu â chynrychiolydd y Gymdeithas Pysgotwyr, ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol, i ganfod a fyddai modd ethol cynrychiolydd ymhlith y pysgotwyr lleol i fynychu'r Pwyllgor ar ei ran, ar achlysuron pan nad oedd yn medru mynychu'r cyfarfod.

(ii) **Dŵr Ymdrochi**

Adroddwyd bod canlyniadau'r dŵr ymdrochi wedi gwella flwyddyn mewn cymhariaeth a flwyddyn diwethaf gyda Thraeth y Fynwent hefyd yn parhau i'w brofi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iii) **Arwyddion Diogelwch**

Adroddwyd bod swyddogion y Gwasnaeth Morwrol wedi cynnal trafodaethau gyda Josh Cooper o Fudiad y Bad Achub, ynghyd â'r ddau aelod lleol. Roedd lleoliadau wedi eu cytuno ar gyfer gosod yr arwyddion diogelwch a hyderir y bydd adroddiad terfynol cyn y Nadolig gyda'r arwyddion yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2018. O safbwynt arwyddion yn Abermaw, hyderir y bydd yr arwyddion yn eu lle erbyn Awst.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â phostyn sydd yn dal y bwi achub yn Harbwr Penhelyg, cadarnhaodd yr Harbwr Feistr y byddai'n cael ei adnewyddu.

Nododd cynrychiolydd y Bad Achub eu bod yn gwneud cyhoeddiadau o beryglon y môr a nodwyd bwysigrwyd i osod arwyddion rhwng Tywyn ac Aberdyfi yn enwedig i godi ymwyddiaeth o lanw terfol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(f) Materion Ariannol

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r fantolen ariannol gan nodi fel a ganlyn:

- bod tanwariant o £3,264 yng nghostau staff
- bod tanwariant o £11,640 yng nghostau tiroedd ac eiddo
- bod gorwariant o £32 yng nghostau cwch a cherbydau
- bod gorwariant o £1,296 yng nghostau offer a chelfi
- bod targed yr incwm yn fyr o £5,594

Ar gyfer diwedd Medi 2017 nodwyd bod yr incwm yn fyr o £2,283.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ff) Ffioedd a thaliadau 2017/18

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 er cwrdd â her gyllideb a tharged incwm y gwasanaeth.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(g) Digwyddiadau

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai braf ydoedd gweld cymaint o weithgareddau amrywiol yn yr gymuned. Cyfeiriwyd yn benodol at daith ar fadau dŵr personol o Morfa Bychan i Aberdyfi yn ystod yr haf a chanmolwyd y trefniadau ar y diwrnod. Hyderir y bydd y gweithgareddau yn parhau ac yn cael eu cynnal eto flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nodwyd bod angen adolygu'r gweithgareddau fel rhan o'r Dyfi Fest yn benodol elfennau iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ar y cei (castell neidio). Pe bydd y Dyfi Fest yn cael ei gynnal flwyddyn nesaf, awgrymyd efallai y gall gweithredwr y castell neidio gael cyflenwad trydan o'r Harbwr yn hytrach na defnyddio generadur.

Mewn ymateb i gais ar gyfer ail-leoli yr orsaf dywydd gan ei fod wedi ei leoli yn y man anghywir ar y cei, awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i Mr Des George drafod a chytuno lleoliad addas gyda'r Harbwr Feistr ar y cyfle cyntaf.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

6. UNRHYW FATER ARALL

(a) Bryn Llestair (Picnic Island)

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynglyn â chyflwyr y bont sydd yn mynd drosodd i Fryn Llestair a rhaid bod yn barod ar gyfer adnewyddu'r bont. Deallir bod cwmni Network Rail yn ymwybodol o gyflwr y bont ac y byddai'n gyfle i ofyn i'r cwmni os byddent yn fodlon cyfrannu tuag at gostau o'i hadnewyddu. 'Roedd y Cadeirydd ynghyd â'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn bwriadu mynychu cyd-gyfarfod o Bwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth a Phwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian a oedd i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2017 ac y byddent yn fwy na pharod i godi'r mater yn y fan honno.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gwasanaeth wedi archwilio'r bont ac yn gweld ei phwysigrwydd i'r gymuned. Trafodwyd y mater o gyfraniad ariannol gan yr Outward Bound oddeutu 3 blynedd yn ol. Cyflwynwyd cais am gyfalaf i'r Cyngor a hyderir y gellir ymdrin â'r mater flwyddyn yma.

Ychwanegodd yr Harbwr Feistr ei bod yn anodd gweithio ar y bont oherwydd bod y rheilffordd yn fyw a'r angen, o safbwynt diogelwch, i gael archwilwyr pob pen i'r rheilffordd ar gost o oddeutu £2,000 y tro.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyflwyno diweddariad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

(b) Symud Tywod

Mewn ymateb i ymholiad â chlirio tywod, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi ei raglennu ar gyfer mis Mawrth.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

7. ETHOL SYLWEDYDDION

Penderfynwyd: Ethol Mr Dave Williams fel sylwedydd i gynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar yr isod:

- Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
- Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
- Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 22 Mawrth 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.20 p.m.

CADEIRYDD.

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	22 Mawrth 2018
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cod Diogelwch Porthladdoedd

- 1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan staff harbyrau y Gwasanaeth. Mae yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol dydd i ddydd yn Harbwr Aberdyfi.
- 1.2 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a hyn yn adolygiad o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd.
- 1.3 Yn dilyn adolygiad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 mae'r Gwasanaeth wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr archwiliad gan yr arbenigwr allanol. Mae copi o'r adroddiad yn atodol ac fe fydd y Gwasanaeth yn gweithredu ar argymhellion yr archwilwyr yn ystod y misoedd nesaf. Croesawir sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.
- 1.4 Fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref, barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy yw Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig. Rhagwelir bydd angen trafod hyn ymhellach oddi fewn y Cyngor a rhagwelir bydd cyfrifoldeb Daliwr Dyletswydd yn trosglwyddo i Gabinet y Cyngor maes o law.
- 1.5 Parthed y Person Dynodedig mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gan Gyngor Conwy ac y Person Dynodedig ar gyfer Harbyrau Gwynedd bydd Harbwr Feistr Conwy. Mae yn hanfodol na fod y Person Dynodedig gyda chysylltiad a'r Cyngor neu yr Awdurdod Harbwr fel gallasai fod yn hollol anibynnol.
- 1.6 Yn ystod yr ymweliad fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog (canolfan y gwaith archwilio) a Phwllheli. Ni fu iddynt ymweld ac Abermaw oherwydd cyfyngiadau mewn amser.
- 1.7 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion neu drefniadau diogelwch difrifol; safon neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd gan yr archwilwyr fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Mae yn anorfod fod y materion hyn wedi eu gweithredu arnynt gan staff y Gwasanaeth yn ystod misoedd y gaeaf. Cyflwynwyd sylwadau ynglŷn â diffyg lled y sianel fordwyo yn harbwr Pwllheli er ni rhagwelir fod hyn yn fater a fyddai yn dechnegol oddi fewn trefn yr archwiliad. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau am faterion diogelwch yn harbwr Porthmadog.
- 1.8 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau

gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol

- 1.9 Fe fydd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r Cyngor yn ystod yr Hydref nesaf. Y bwriad yw bod dilyniant i'r adolygiad yn cael ei gynnal ar ddyddiad ble cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble gwahoddir aelodau o holl Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Gwynedd i'r cyfarfod er derbyn cyflwyniad gan yr archwilwyr ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Fe fydd hyn hefyd yn gyfle i Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol i holi'r arbenigwyr ar faterion yn ymwneud a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ac i'r Archwilwyr gadarnhau cyfrifoldebau am gynnwys a gweithrediad y Cod Diogelwch.

2. Materion Mordwyo

- 2.1.1 Rhagwelir bydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Aberdyfi gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 14eg Awst 2018.

- 2.1.2 Yn y man 2 Rybudd i Forwyr sydd mewn grym yn harbwr Aberdyfi.

- 2.1.3 Rhybudd Rhif 1 - 12/01/2018 - 52°32.290' N 004°04.637' W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Starbord - Rhif 3 QFL G ar ei safle priodol

- 2.1.1 Rhybudd Rhif 2 - 05/02/2018 - 52°32.469'N 004°02.861'W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo YSM 4 Knots - YSM FL.Y 2s - ar ei safle priodol.

- 2.1.2 Bydd yn fwriad sicrhau fod gwaith cynnal a chadw Bwi Tramwyo (Fairway) yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf er sicrhau bod y bwi yn barod i'w ail leoli yn y bae.

- 2.1.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.

2.2 Cynnal a chadw

- 2.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Aberdyfi gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

- 2.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2018 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a lwyddwyd i'w gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

- 2.2.3 Yn anffodus oherwydd materion technegol nid oedd cerbyd addas ar gael i gwblhau rhai tasgau. Cadarnheir fod y Cyngor wedi buddsoddi yn sylweddol a bod y Gwasanaeth wedi i dderbyn tri cherbyd newydd ar gyfer gwasanaethu traethau'r sir at y dyfodol. Mae un cerbyd wedi ei leoli yn Aberdyfi ar gyfer gwasanaethu ardal i'r de o Friog.

- 2.2.4 Mae'r contractwr angorfeydd wedi cychwyn ar waith i ail leoli angorfeydd yn harbwr Aberdyfi. Er ni ragwelir bydd nifer gychod yn lansio cyn Gŵyl Y Pasg mae'r contractwr yn anelu i sicrhau fod rhai angorfeydd ar gael i forwyr pe bydd cychod yn bwriadu lansio. Mae holl angorfeydd ymwelwyr y Cyngor wedi eu cynnal a chadw i'r safon ddisgwyliedig.

Mae yn hanfodol bod y contractwr angorfeydd yn cyflwyno Tystysgrif Ansawdd Angorfa i'r Harbwr feistr cyn bod cwch yn cael ei angora ar yr angorfa. Mae hyn yn ofyn dan Is ddeddf yr harbwr.

- 2.2.5 **Llwybr Pren (Boardwalk)** - Mae'r 'Llwybr Pren' (Boardwalk) sydd yn arwain ar draws y twyni ger y cwrs golf wedi bod ar gau oherwydd diffygion difrifol yn y strwythur. Mae sawl stanc allweddol wedi pydru sydd yn golygu nid yw'r llwybr yn ddiogel i'w ddefnyddio ac felly ma ear gau dros dro. Mae'r cyhoedd yn parhau i ymweld â'r traeth gan dramwyo cyfocrog a'r Llwybr Pren ond yn anffodus bydd hyn yn achosi difrod ac erydiad i'r twyni tywod. Nid yw'r llwybr yn Llwybr Cyhoeddus ac felly nid oes yna ofyn statudol bod y llwybr pren yn cael ei adnewyddu.
- 2.2.6 Gan fod y Llwybr Pren yn boblogaidd ac yn allweddol bwysig i warchod y twyni tywod fe fydd y Gwasanaeth yn paratoi i gynnal a chadw'r llwybr yn ystod y misoedd nesaf. Y bwriad yw ceisio cryfhau'r Llwybr Pren drwy ddefnyddio stanciau plastic. Yn anffodus oherwydd diffyg adnoddau ni allwn bennu dyddiad pryd bydd y llwybr yn ail agor. Gan fod sefyllfa cyllideb y gwasanaeth yn ddifrifol fe fydd angen ceisio am gefnogaeth ariannol yn lleol er cyfrannu ar gost cynnal a chadw'r llwybr.
- 2.2.7 Mae Traeth y Fynwent wedi ei adnabod dan gyfarwyddyd dwr Ymdrochi ac mae'r dŵr yn cael ei fonitro yn rheolaidd yn ystod y tymor ymdrochi gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gan fod traeth y fynwent yn draeth dwr ymdrochi rhagwelwn bydd defnydd o'r traeth yn cynyddu a golygai hyn bydd angen ystyried y llwybr mwyaf addas ar gyfer cyrraedd y traeth. Mae gan y gwasanaeth gyflenwad Ysgolion Tywod ac fe fydd yr Uwch Swyddog Traethau yn ystyried addasrwydd y rhain ar gyfer y safle.
- 2.3 **Ynys Picnic** - Mae'r bont droed sydd yn croesi trosodd at Ynys Picnic yn parhau i achosi pryder. Er bod prif strwythur y bont mewn cyflwr diogel mae'r coed sydd yn wynebu'r bont wedi dirywio. Mae yn fwriad ail wynebu prif ran o'r bont gyda defnydd plastic fel y defnyddiwyd ar wyneb pontŵn cychod. Er cyflwynwyd cais am gymorth ariannol ni lwyddwyd i dderbyn arian cyfalaf tuag at y gwaith. Mae'r bont yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan beirianwyr yr Uned Ymgynghoriaeth Gwynedd. Mae'r archwiliadau yn bwysig dros ben er sicrhau diogelwch y cyhoedd a chan fod y bont yn croesi prif gledrau llinell drenau'r Cambrian.
- 2.4 **Pontŵn** - Yn ystod y gwyntoedd cryfion a gafodd effaith trychinebus ac achosi difrod difrifol ar farina Caergybi cafwyd difrod llai ei achosi i bontŵn yn harbwr Aberdyfi. Nid ydym yn rhagweld bydd yn bosibl adfer y pontŵn ac mi fyd angen ystyried ffyrdd amgen i storio cychod gweini yn ardal Bae'r Eglwys at y dyfodol. Yn anffodus roedd rhai arnofion wedi eu difrodi yn sylweddol gan achosi llygredd ysbwriel mewn rhan o'r harbwr. Mae staff wedi ymdrechu i glirio'r ysbwriel ond rhagwelir bydd y peli polysteirin i'w gweld ar y blaendraeth am amser hir.
- 2.4.1 **Arwyddion Diogelwch.** Mae'r Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub a chynrychiolydd lleol o'r Bad Achub, wedi cwblhau adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch oddi amgylch ardal yr Harbwr a thraeth Aberdyfi a thraeth Tywyn. Mewn ymateb i'r archwiliad ac mewn ymgynghoriad gyda Mudiad y Bad Achub mae'r Gwasanaeth yn bwriadu archebu arwyddion newydd a fydd yn cael eu gosod ar sawl safle oddi amgylch yr harbwr a ger y traeth yn Aberdyfi.
- 2.4.2 Fe fydd y gwasanaeth yn ymgynghori ymhellach gyda'r Aelodau Lleol yn Nhywyn gan bosibl bydd yna fan addasiadau angen ei gynnwys ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar yr arwyddion. Rhagwelir bydd arwyddion Aberdyfi ar eu safle cyn Gŵyl Banc Mai a bod arwyddion Tywyn ar eu safle cyn cyfnod prif wyliau'r haf. Mae'r Gwasanaeth, ar y cyd gyda'r RNLI wedi cynnal

archwiliad manwl o holl arwyddion prif draethau'r sir ac yn ystod 2018 mae'n fwriad ymestyn y rhaglen adnewyddu arwyddion i gynnwys pob traeth sydd wedi ei ddynodi yn Ddŵr Ymdrochi.

- 2.4.3 Rhwng y ddau safle rhagwelir bydd cyfanswm cost yr arwyddion yn £12,500 gyda chost dylunio a rhag paratoi, sef paratoi templedi, yn £500 (eithrio TAW.) Oherwydd natur traeth Aberdyfi rhagwelir bydd angen tynnu rhai arwyddion oddi ar y safle yn ystod misoedd y gaeaf er lleihau difrod a achoswyd i'r arwyddion gan y tywydd garw. Ariannwyd y gwariant yn rhannol drwy gynllun TAIS, sef cronfa Twristiaeth Llywodraeth Cymru.
- 2.4.4 **Taflen Traeth** - atodir taflen traeth/harbwr a fydd wedi ei adolygu yn ddiweddar gan ofyn barn yr Aelodau ar gynnwys y daflen. Bwriedir cynhyrchu'r daflen cyn Gŵyl Y Sulgwyn. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei arddangos ar arwyddion mewn safleoedd addas.
- 2.4.5 **F.L.A.G -2018 (Fisheries Local Action Group)**. Mae cyfnod newydd F.L.A.G wedi cychwyn yng Nghymru ac mae Swyddog wedi ei phenodi i arwain ar y prosiect drwy drefniant Cyngor Ceredigion. Yn ddarostyngedig ar ganiatâd y Cadeirydd mi fydd Cadeirydd y Grwp FLAG yn mynychu'r cyfarfod er adrodd i'r pwyllgor ar faterion F.L.A.G. Ni does manylion pellach ynglŷn â rhaglen F.L.A.G wedi dod at law hyd yma. Fe fydd y gwasanaeth yn cynorthwyo y grwp fel bod bosibl er sicrhau llwyddiant unrhyw ddiwyddiad a drefnwyd yn Aberdyfi. Deallir mai ceisiadau am gymorth ariannol grant refeniw yn unig bydd yn derbyn cymeradwyaeth FLAG ac nid ceisiadau am Gymorth ariannol cyfalaf.
- 2.4.6 **Symud Tywod - 2018**. Rhagwelir bydd gwaith symud tywod o'r traeth wedi cychwyn ar y 12fed Mawrth 2018. Bydd cyfnod a maint y gwaith yn ddibynnol ar y maint tywod sydd wedi casglu yn yr ardal. Rhagwelir bydd tywod sydd wedi casglu yn y Maes Parcio ac ar y 'promenâd' bychain hefyd yn cael ei glirio fel rhan o'r cytundeb. Er ceisio arbed tywod rhag chwythu oddi ar y traeth at y maes parcio a'r stryd fawr mae staff yr harbwr wedi ymestyn ffens wrth ochr y promenade.
- 2.4.7 **Cynhwysyddion** – Mae sawl cynhwysydd sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw offer hwylfyrddio a chanŵio wedi eu parcio ar dir ger compownd y Clwb Hwyllo. Mae'r cynhwysyddion ar dir y Cyngor ac nid ar dir dan brydles trydydd parti. Mae perchenogion y cynhwysyddion wedi cael defnydd anawdurdodedig o'r safle ers peth amser.
- 2.4.8 Mae cyflwr nifer o'r cynhwysyddion yn achosi pryder ac nid oes unrhyw ymdrech yn dod i'r amlwg fod y safle neu'r cynhwysyddion yn cael eu cynnal a chadw gan y perchenogion. Oherwydd y diffyg cynnal a chadw a diffyg Gwybodaeth pwy sydd yn berchen y cynhwysyddion hyn fe fydd y Cyngor, drwy'r Harbwr Feistr, yn cymryd camau i symud y cynhwysyddion oddi ar y safle oni bai bod perchenogion yn cyflwyno eu manylion llawn i'r Cyngor ac yn cytuno i dalu ffi flynyddol am yr hawl i leoli'r cynhwysydd ar y safle.

2.5 **Materion Staff**

- 2.5.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) i ben ar y 30ain Medi 2017. Fel yr adroddwyd yn yr hydref fe fu i'r cytundeb gyflogaeth gael ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2017 ar sail 3 diwrnod yr wythnos. Er sicrhau parhad gwasanaeth a chyflawni gwaith allweddol mae'r swydd wedi ei ymestyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos (Mawrth, Mercher a lau) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018. Mawr obeithir bydd swyddi Cymhorthyddion Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog yn dychwelyd yn llawn amser mis Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2018.
- 2.5.2 Er y sefyllfa ariannol ddifrifol a thoriad yng nghyllideb y gwasanaeth mae'n fwriad i benodi Cymhorthydd Traeth ar gyfer Aberdyfi yn 2018. Er bydd Cymhorthydd Traeth yn cael ei

benodi ni chyflwynir cais am Wobr Traeth ar gyfer Traeth Aberdyfi yn y dyfodol. Penderfyniad y Cyngor yw cyflwyno ceisiadau am wobwr traeth ble bod ansawdd dwr ymdrochi yn cyrraedd y safon 'Ardderchog'. Mae safon ansawdd dwr ymdrochi Aberdyfi yn cyrraedd y safon 'Boddhaol'. Mae hyn yn galonogol dros ben gan yn y gorffennol roedd safon yr ansawdd dwr ddim yn cyrraedd y safon isaf.

- 2.5.3 **Wal y Cei.** Fe fydd diweddariad ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau diweddaraf parthed Wal y Cei yn cael ei gyflwyno er sylw Aelodau yn y cyfarfod. Mae posteri wedi ei dosbarthu yn lleol yn tynnu sylw'r cyhoedd bod y Cyngor yn cynnal sesiwn 'Galw Fewn' ble bydd cyfle i'r cyhoedd drafod y cynlluniau gyda peirianwyr Ymgynghoriaeth Gwynedd. Cynhelir y sesiwn 'Galw Fewn' yn Neuadd Dyfi rhwng 14.00 a 19.00 ar yr 22ain Mawrth 2018. Croeso cynnes i bawb. Atodir gopi o'r poster hysbysebu er gwybodaeth.
- 2.5.4 **Tir Comin / tir ystorfa. Gwastraff.** Mae gwaith clirio safle ble bod gwastraff wedi ei waredu yn anghyfreithlon wedi cychwyn. Mae'r contractwr a benodwyd wedi clirio rhan helaeth o'r safle ond mae yna wastraff asbestos a chawelli oergell a rhewgell yn parhau angen eu gwaredu. Fe fydd cost ychwanegol ynglwm a hyn ac mi fydd y gwasanaeth yn trefnu'r gwaith hwn yn fuan.
- 2.5.5 Fel y bydd wedi ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref mae yn allweddol bwysig fod unigolion sydd ag offer pysgota ar y safle yn sicrhau fod eu holl offer yn daclus ac wedi ei storio yn gywir. Yn anffodus nid oes cydwthrediad wedi digwydd ar hyn yn lleol. Yn yr ail ymgyrch pwysleisir bydd unrhyw offer pysgota yn cael ei waredu pe bydd y Gwasanaeth o'r farn na fod yr offer wedi ei storio yn gywir a phe na fod defnydd i'r offer.
- 2.5.6 Yn anffodus parheir i bwysleisio unwaith yn rhagor yr angenrheidrwydd bod pysgotwyr, cynrychiolwr y Gymdeithas Bysgota a chynrychiolwyr eraill yn sicrhau fod yna neges glir ynglŷn â'r bwriad yn cael ei gyflwyno i'r pysgotwyr heb oedi. Er ein rhybuddion nid oes unrhyw ymdrech wedi ei wneud gan bysgotwyr i glirio Defnydd neu i storio offer yn daclus ar y safle.
- 2.5.7 Roedd cost y gwaith cychwynnol fel a ganlyn: - Hurio peiriannau = £410.00. Hurio sgip = £100 (x5 sgip) gyda chost gwaredu gwastraff yn £150 y dunnell. Cludwyd tua 30 tunnell ysbwriel i dir lenwi a golygai hyn bydd cost tir lenwi yn £4,500. Cost gwaith contractwr = £2,450.00. Holl gostau eithrio TAW.
- 2.6 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19.** Mae taenlen ffioedd arfaethedig 2018 Harbwr Aberdyfi eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau'r Aelodau. Er yr adroddwyd y rhagwelwyd byddai chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78% mae'r canran chwyddiant wedi ei adolygu yn dilyn nifer o ffactorau sydd yn cael effaith ar chwyddiant. Cadarnheir bydd y raddfa chwyddiant ar gyfer harbwr Aberdyfi yn 2018/19 yn cynyddu i 3.44% gyda chwyddiant cyfartaledd harbyrau Gwynedd yn 2.9%. Golygai bydd targed incwm yr harbwr Aberdyfi yn cynyddu at darged £25,560 yn 2018/19. Mae cyfanswm targed incwm y Gwasanaeth Morwrol yn £2,073.000.
- 2.7 Gan fod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr harbwr y bwriad yw awgrymu bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn sgil y targedau herion ac gan fydd diffyg bosibl yn yr incwm fe fydd angen sicrhau fod y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd incwm angen ac yn lleihau gwariant bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- 2.8 Mae cynnydd chwyddiant Morwrol a Pharciau Gwledig 2018/19 fel a ganlyn: -


• Traethau	- 3.10%	4.43%
• Hafan	- 1.73%	2.50%
• Pwllheli	- 1.78%	2.53%
• Harbyrau	- 1.78%	2.90%
• Aberdyfi	- 1.78%	3.44%
• Doc Fictoria	- 1.45%	2.08%
• Parc Padarn	- 3.25%	3.73%
• Parc Glynllifon	- 3.00%	3.89%

3. Materion Ariannol

3.1 Bydd mantolen yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn harbwr Aberdyfi hyd at ddiwedd Chwefror 2018 yn cael ei ddsbarthu yn y cyfarfod.

3.2 Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau. Pwrcasu cadwyni newydd
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.
- Peiriannau newydd Cwch Patrol Harbwr Aberdyfi. Oedi ar y prosiect gyda bwriad cwblhau cyn diwedd mis Mai 2018.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 1	


Math: **Gwiriad Iechyd – Cod Diogelwch
Morol Porthladdoedd**

Porthladd: **Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod
Harbwr ar gyfer Porthmadog,
Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi**

Diben: **Ymweliad Allanol**


Awdur:	Dyddiad	Llofnod
Forkanul Quader David Turner	19 a 20 Medi 2017	

Hanes y Fersiwn	Dyddiad	Sylwadau
Drafft Cyntaf	21 Medi 2017	

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 2	

GEIRFA

ALARP	Mor Isel ag sy'n Ymarferol Resymol
CHA	Awdurdod Harbwr Cymwys
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
PD	Person Dynodedig
HF	Harbwrfeistr
GTGP	Canllaw Arfer Dda
KPI	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
MAIB	Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol
MPX	Master/Pilot Exchange
PMSC	Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd
PEC	Tystysgrif Eithrio Llywio
MAIB	Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol
MSMS	System Rheoli Diogelwch Morol
SHA	Awdurdod Harbwr Cymwys
VTS	Gwasanaeth Traffig Cychod
LPS	Gwasanaethau Porthladd Lleol

 <p>Maritime & Coastguard Agency</p>	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 3	

1. Cefndir

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod harbwr statudol â statws bwrdeistrefol ar gyfer y porthladdoedd a ganlyn – Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Defnyddir y porthladdoedd yn bennaf at ddibenion hamdden a physgota, ac maent wedi'u lleoli yn ardal arfordirol gogledd-orllewin Cymru, gerllaw Bae Ceredigion.

Cyn yr ymweliad anfonwyd *aide-memoire* at yr Harbwrfeistr gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gofyn am sylwadau oedd yn cyfateb i'r PMSC ac i adran berthnasol System Rheoli Diogelwch y Porthladd. Diben hyn yw cynorthwyo'r MCA gyda'r "Gwiriad Iechyd" a darparu sylfaen ar gyfer archwiliad pellach yn ystod yr ymweliad. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb y deiliad dyletswydd, y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy'n goruchwylio'r gweithgareddau gweithredol, ar y cyd â thîm o Harbwrfeistri.


2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd "Gwiriad Iechyd" o System Rheoli Diogelwch Awdurdod Harbwr Gwynedd yr MCA a adolygwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC).

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi, a defnyddiwyd swyddfa Harbwr Porthmadog fel y prif ganolfan ar gyfer yr ymweliad. Arweinyddion tîm yr MCA oedd Forkanul Quader a David Turner.

Darparodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleusterau ar gyfer y broses wirio yn swyddfa harbwr Porthmadog, gan gynnwys rhoi mynediad i'r holl ddogfennau angenrheidiol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 4	


3. Sgôp

Diben y "Gwiriad Iechyd" yw asesu a yw'r porthladd, ar ddyddiau'r ymweliad, yn gweithredu'r PMSC yn effeithiol. Mae'r PMSC yn berthnasol i bob Awdurdod Harbwr yn y DU â chanddynt bwerau a dyletswyddau statudol. Bwriad yr ymweliad yw cynghori a chynorthwyo'r porthladd i weithredu'r Cod, ac i wella diogelwch y porthladd wrth wneud hynny.

Yr oedd y gwiriad iechyd hwn yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

1. Manylion y Porthladd	✓
2. Y Person Dynodedig	✓
3. Deiliaid Dyletswydd	✓
4. Dyletswyddau a Phwerau	✓
5. Ymgynghori a Lledaenu Gwybodaeth	✓
6. Asesu Risg	✓
7. System Rheoli Diogelwch	✓
8. Pwerau a Gorfodaeth	✓
9. Cynlluniau Llywio a Phasio	Amh. Dim ond Porthmadog
10. Cychod Gweithio, Cychod Tynnu a Gwasanaethau Morol	✓
11. Rhwymedigaethau Gwarchodaeth	✓
12. Cyfarwyddiadau	✓
13. Hyfforddiant	✓
14. Gwasanaethau Traffig Cychod	Amh.
15. Dogfennau a Gyhoeddwyd	✓
16. Gwiriad terfynol	✓

Ar ôl yr ymweliad, bydd tîm "Gwiriad Iechyd" yr MCA yn cynhyrchu adroddiad byr i grynhoi enghreifftiau o'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod harbwr. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwelliannau a welwyd yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 5	

4.

Trosolwg

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Harbwr Statudol (SHA) ar gyfer pedwar porthladd - Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Mae darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn berthnasol i bob un ohonynt. Mae prif ardal yr awdurdod arfordirol yn ymestyn o Abergwyngregyn i'r dwyrain o Fangor hyd at Ddoc Fictoria ar y Fenai yng Nghaernarfon, ac i Aberdyfi ym Mae Ceredigion. Rheolir pob harbwr o ddydd-i-ddydd gan yr Harbwrfeistr a benodwyd gan y Cyngor, a gweithredir pob porthladd yn dechnegol o dan bolisiau a rheolaeth unedol y Cyngor. Mae gan Harbwr Porthmadog statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA) ac mae'n darparu gwasanaeth llywio yn ôl yr angen, er na chafwyd cais am y gwasanaeth hwn ers rhai blynnydoedd. Porthmadog yw'r unig harbwr yng Nghyngor Gwynedd â'r statws hwn, ac mae'r statws CHA yn cael ei adolygu'n barhaus.


O dan Harbwr Gwynedd, uchafswm yr angorfeydd posib yn y porthladdoedd yw: Porthmadog - 238, Pwllheli – 490 (412 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina), Abermaw – 140, ac Aberdyfi - 120. Dyma yw niferoedd uchaf posib yr angorfeydd. Yn 2017 niferoedd y cychodd wedi'u hangori oedd: Porthmadog - 135, Pwllheli – 490 (306 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina a 60 ar angorfeydd eraill), Abermaw – 86, ac Aberdyfi - 78.

Ymweliad

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi 2017. Dangosodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r Uwch Swyddog Harbwr a'r Harbwrfeistr (Porthmadog) ymrwymiad clir at y PMSC, gan sicrhau'r tîm ymweld eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol tuag at weithredu darpariaethau'r PMSC.

Swyddogion Gwynedd oedd yn bresennol yn ystod y Gwiriad lechyd oedd: -

Mr. Barry Davies – Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
 Mr. Arthur Francis Jones – Uwch Swyddog Harbwr
 Malcolm Humphreys – Harbwrfeistr (Porthmadog)
 William Williams – Rheolwr Harbwr (Pwllheli - yn rhannol bresennol)
 William Stockford – Harbwrfeistr (Aberdyfi - yn rhannol bresennol)
 Capt. Mathew Forbes – Person Dynodedig (Harbwrfeistr Conwy)

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 6	

4.1 Canfyddiadau Harbwr Gwynedd

Gwelliannau

Adnabuwyd rhai gwelliannau penodol, ond ar y cyfan gwelwyd bod dull cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfennaeth, wedi'i ddefnyddio wrth lunio'r System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS) a'r Cynllun Gweithredu Morol cysylltiedig. Fodd bynnag, canfyddodd y tîm Gwiriad lechyd bod rhai tasgau hanfodol gan gynnwys archwilio mewnol, archwilio allanol ac adnabyddiaeth gywir o'r Deiliad Dyletswydd dal heb eu cwblhau. Mae'n bwysig crybwyll hefyd i'r tîm Gwiriad lechyd ganfod fod y prosesau gweithredol yn drefnus.

Mae'r canfyddiadau a nodir isod yn gysylltiedig â'r sylwadau ar statws y Cynllun Gweithredol Morol (SMS). Bydd angen ail-ymweld â'r Cynllun Gweithredol Morol er mwyn unioni'r System Rheoli Diogelwch Morol gyda'r PMSC a'r GTGP.

Cytunodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yr Uwch Swyddog Harbwr, yr Harbwrfeistri perthnasol a'r Person Dynodedig y byddai'n rhaid cynnal ymweliad gwiriad iechyd arall gan dîm Gwiriad lechyd yr MCA yn ystod y cyfnod 12 mis nesaf.


Adnabuwyd nifer o welliannau a fyddai'n gwella'r modd y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r Cod. Y rhain yw:

Deiliad Dyletswydd

Ar hyn o bryd, y Deiliad Dyletswydd tybiedig yw Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned (DBEC). Y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy'n goruchwylio gweithrediad y pedwar porthladd o dan y DBEC. Yn unol â'r PMSC, gall aelod o'r tîm rheoli neu'r Bwrdd fod yn Ddeiliad Dyletswydd gydag atebolrwydd cyhoeddus am y Cod PMSC.

Deallir mai'r DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), ac nad yw'n aelod etholedig o'r Cyngor, ac felly nid yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Er bod aelodau'r cyngor ar y cyd (ac yn unigol) yn gallu ymrwymo i'r PMSC, dylid ystyried ffurfio pwyllgor craidd i ysgwyddo cyfrifoldeb y Deiliad Dyletswydd neu enwebu aelod o'r cyngor i weithredu fel y deiliad dyletswydd. Byddai modd i'r DBEC a benodir gynorthwyo'r Deiliad Dyletswydd.

GTGP: 2.2.19, 2.2.23, 2.2.31

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 7	

Person Dynodedig

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Harbwr wedi penodi Person Dynodedig cymwys. Nid yw'r penodiad hwn wedi'i gwblhau'n ffurfiol. Felly mae angen ffurfioli'r penodiad drwy anfon llythyr at y Person Dynodedig a benodwyd.

GTGP: 2.2.25

System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS)

Mae'r Awdurdod Harbwr wedi dewis defnyddio'r Cynllun Gweithredu Morol fel eu MSMS. Rhaid adolygu'r ddogfen i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau cywir y deiliad dyletswydd. Yn ogystal mae angen ffurfioli'r Cynllun Gweithredu Cyfredol yn MSMS. Mae modd i'r Awdurdod Harbwr ddefnyddio MSMS cyffredin, gan alluogi i'r porthladdoedd unigol ddatblygu system yn seiliedig ar risg i ymdrin â risgiau gweithredol pob porthladd.

GTGP: 4.1.3, 5.1.5

Archwiliadau Mewnol

Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliadau mewnol. Dylid cynnal archwiliadau mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn.

GTGP: 5.1.1

Archwiliad Person Dynodedig

Nid oedd unrhyw gofnodion o archwiliadau a gynhaliwyd gan y PD yn unol ag adran 2.2.30 GTGP. Nid oedd tystiolaeth o gyflwyno unrhyw adroddiad i'r Deiliad Dyletswydd nac i'r corff llywodraethu. Dylai'r PD gyflwyno adroddiad monitro i'r Deiliad Dyletswydd ac i'r bwrdd rheoli.

GTGP: 2.2.30

Archwilio Allanol


Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliad allanol. Dylid cynnal archwiliadau allanol yn gyson.

GTGP: 5.1.1

Cynllun Diogelwch

Dylai Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG) ystyried cyhoeddi Cynllun Diogelwch bob tair blynedd yn unol â'r PMSC ble dengys sut y bydd y bwriedir cwrdd â'r safonau.

GTGP: 2.2

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 8	

Gwarchodaeth: GLA/Trinity House

Dylai AHG gael llythyr gan GLA/Trinity House ar ôl cwblhau'r holl waith gwarchodaeth sydd ar y gweill. GTGP: 7.5.5

Cydymffurfiaeth â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC)

Pan fyddant yn fodlon eu bod yn cydymffurfio â'r PMSC, dylai AHG anfon llythyr at yr MCA. Ni wnaed hyn ers 2013.

PMSC: 2.31 GTGP: 2.12

Statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA)

Dylai AHG adolygu ei statws CHA i weld a oes angen statws CHA gyda chydymffurfiaeth gyflawn. GTGP: 9.2

Iechyd a Diogelwch

AHG i adolygu ei statws archwilio I&D cyfredol i gynnwys elfennau morol ynghyd â'r gweithgareddau cysylltiedig ar y pier. GTGP: 6.6

Matrics Hyfforddi


Cytunwyd y byddai creu matrics hyfforddiant i staff a chynllun hyfforddiant cysylltiedig yn fuddiol, a bod angen cwblhau hyn.

GTGP: 12.2.1

Llaid yn Harbwr Pwllheli

Gwelwyd bod lefel y llaid yn y sianel sy'n arwain i'r harbwr yn parhau i gynyddu. Mae hyn wedi lleihau lled y dŵr sydd ar gael, yn yr ardal bwysicaf sy'n arwain i mewn i'r harbwr, yn sylweddol. Felly, dylid mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro carthu digonol.

GTGP: 7.4.2

 <p>Maritime & Coastguard Agency</p>	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 9	

ARFERION GORAU

Ymgynghori

Yr oedd cynnwys sector pysgota masnachol Aberdyfi yng nghyfarfodydd pwyllgor ymgynghorol yr harbwr yn gam cadarnhaol, a dylid archwilio ymhellach a oes modd cael PFDs Mullion wedi'u hariannu gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop.

Cyfleusterau Morol

Yr oedd y cyfleusterau ym Mhorthmadog yn gynhwysfawr, ac wedi'u hategu gan rhestrau gwirio a gweithdrefnau wedi'u strwythuro'n dda. Un elfen a nodwyd yn arbennig oedd y pwysau angori o goncrit oedd wedi'u gosod mewn teiars fel bod modd eu rholio i'w lle.

Asesiad risg


Gwelwyd fod gan bob porthladd asesiadau risg wedi'u diweddarau a'u strwythuro'n dda.

5. Casgliad

Yr oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn amlwg wedi gwneud ymdrech fawr i ddatblygu'r MSMS newydd a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Ymddengys bod y ddogfen yn adlewyrchu arferion cyfredol yn fras.

Yn awr, y flaenoriaeth yw dechrau ar adolygiad o'r System Rheoli Diogelwch cyfredol a'r Cynllun Gweithredol i weithredu a rheoli'r gweithgareddau o dan yr SMS yn ffurfiol. Mae hyn yn hanfodol wrth nesáu at gydymffurfio â'r PMSC gan nad yw'n ymddangos bod egwyddorion yr SMS yn cael eu dilyn ar hyn o bryd.

Felly, bwriad yr MCA yw cynnal gwiriad iechyd arall o fewn 12 mis i gadarnhau bod yr SMS a'r gweithdrefnau cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith a'u bod yn rheoleiddio gweithgareddau'r harbwr yn effeithiol. Byddai hyn yn cynorthwyo i roi sicrwydd bod yr harbwr yn cydymffurfio â'r PMSC. Felly, dylai pwyllgor craidd yn cynnwys, fel awgrymwyd, y Deiliad Dyletswydd ac Aelodau o'r Cyngor, fod yn barod i gydnabod eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y PMSC a chynnig cefnogaeth ac adnoddau i uwch staff gwblhau'r gwaith da sy'n mynd rhagddo.

 Maritime & Coastguard Agency	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 10	

Dylai Cyngor Gwynedd, fel y Deiliad Dyletswydd, hefyd gydnabod nad yw'r Awdurdod Harbwr yn cydymffurfio'n llwyr ar hyn o bryd, ac felly mae Aelodau'r Cyngor ar y cyd yn agored iawn i atebolrwydd a allai godi o achosion o esgeulustod yn yr harbwr.

6. Sylwadau yr Awdurdod Harbwr

Yr oedd holl swyddogion Cyngor Gwynedd fu'n rhan o'r gwaith a wnaed gan y tîm Gwiriad Iechyd ar ran yr MCA, yn gwerthfawrogi'r dull cadarnhaol ac adeiladol a ddilynwyd wrth gynnal y gwiriad Iechyd. Gwerthfawrogyd dull gweithredu proffesiynol, gwybodus a chwrtais y tîm Gwiriad Iechyd.


Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig wedi dangos eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion y PMSC ers ei gyflwyno, ac wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod.

Bydd y sylwadau cadarnhaol a'r gwelliannau a awgrymwyd gan y Tîm Gwiriad Iechyd yn derbyn sylw a bydd camau priodol yn cael eu cymryd cyn yr ymweliad sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2018.

Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig yn cydnabod bod potensial i Aelodau Cyngor Gwynedd fod yn agored i atebolrwydd a gyfyd yn sgil achosion posib, ac ystyrir sefydlu Deiliad Dyletswydd wedi'i ddiffinio os caniateir gweithdrefnau o'r fath.

Fodd bynnag, pwysleisir bod holl staff yr harbyrau wedi derbyn hyfforddiant priodol ac wedi cymhwyso mewn prosesau Iechyd a Diogelwch. Mae proses eisoes yn bodoli i adnabod yr holl risgiau posib o fewn yr harbyrau sydd o dan awdurdod y gwasanaeth. Eisoes mae gweithredu wedi digwydd, a bydd yn parhau i ddigwydd, yn unol ag egwyddor ALARP, er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau a adnabyddir yn parhau i fod mor isel â phosib er mwyn diddymu peryglon o'r fath.

Drwy broses ymgynghorol, mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol cyfrifol, yn sicrhau bod yr harbyrau o dan ei awdurdod yn derbyn lefel uchel o gefnogaeth a gwasanaethau gweinyddol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod Pwyllgorau Ymgynghorol yr Harbwr ar gyfer pob harbwr unigol yn gweithredu'n unol â disgwyliadau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

 <p>Maritime & Coastguard Agency</p>	
Cyf:	MNA 053/010/0480
Dyddiad:	08 Hydref 2017
Tud. Rhif 11	

Cynhelir cyfarfodydd ymgynghorol yr harbwr ddwywaith y flwyddyn yn Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Maent yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth. Mae'r aelodau yn gwbl gyfarwydd â chynnwys Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd a dyma un o brif eitemau'r rhaglen ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn adborth ar yr holl faterion sy'n ymwneud â gweithrediadau'r harbwr o dan gylch gorchwyl y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Drwy gael amrediad eang o gynrychiolwyr lleol wedi'u hethol ar bob Pwyllgor Ymgynghorol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo arbenigedd eang ar draws y diwydiant morol, ynghyd â'r cymunedau hamdden morol a physgota.

Yn y sylw a wnaed gan y tîm Gwiriad Iechyd, nodwyd mai Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned yw'r Deiliad Dyletswydd tybiedig, gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn goruchwyllo gweithrediad y pedwar porthladd o dan awdurdod Cyngor Gwynedd.

Er mai'r DBEC yw'r uwch reolwr llinell ar gyfer y gwasanaeth, Bwrdd y Cyngor (sef Cabinet y Cyngor yn flaenorol) oedd wedi'i nodi yn y gorffennol fel y Deiliad Dyletswydd ar y cyd ar gyfer y PMSC yng Ngwynedd.

DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), nid yw'n aelod etholedig o'r Cyngor ac felly, fel y nodwyd gan y tîm Gwiriad Iechyd, mae'n bosib nad yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Bydd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn sicrhau y ceir eglurder ar fater y Deiliad Dyletswydd, ac y bydd yn cael ei gadarnhau fel mater o frys.

Rydym yn gytûn yn ein casgliad y bu'r Gwiriad Iechyd o fudd mawr i'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig, er y pryderon blaenorol, ac mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r tîm Gwiriad Iechyd ar faterion sy'n ymwneud â'r PMSC yng Ngwynedd, ac yn edrych ymlaen at yr adolygiad Gwiriad Iechyd ym mis Hydref/Tachwedd 2018. Bryd hynny rydym yn rhagweld y bydd y materion a godwyd gan y tîm gwiriad iechyd wedi derbyn sylw.



Dilynwch y rheolau isod er mwyn cael diwrnod diogel, pleserus a llawn hwyl

Gweithgareddau Môr:

- Lansiwch eich bad yn yr ardal ddynodedig a chadwch at y cyfyngiad cyflymdra o **4 MILLTIR MÔR** oddi fewn yr harbwr (gweler y cynllun)
- Mae'n rhaid i bob bad gadw ei hôl-don i'r isafswm oddi fewn **50 medr** i unrhyw fad arall
- Cadwch yn glir o'r ardal waharddedig sydd wedi ei ddynodi gyda bwiau melyn, a chydymffurfiwch gyda holl is-ddeddfau sydd mewn grym - **gall eich bywyd a bywyd eraill ddibynnu arno** (gweler y cynllun).
- Mae'n rhaid i bob bad pŵer gael ei ddefnyddio'n gyfrifol a diogel - byddwch yn ystyriol o eraill
- Bydd 'Rheolau Rhyngwladol Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr' a 'Rheolau Ffederasiwn Sgio-Dŵr Prydeinig' yn cael eu dilyn bob amser
- Cynmentroallan i'r môr gofynnwch am ragolygonytywydd diweddarafgan yr Harbwr Feistr a gwrandwch am fwletinâu ar eich radio VHF
- Mae'n rhaid cofrestru eich bad pŵer gyda Chyngor Gwynedd cyn caniateir lansio ac mae'n ofynnol i chi arddangos yr hawlen cofrestru mewn man amlwg ar eich bad. Cysylltwch â'r Harbwr Feistr am fwy o wybodaeth.
- Mae ffi lansio yn daladwy - ymwelwch â swyddfa'r Harbwr Feistr cyn lansio
- **PERYGL** - Peidiwch â nofio yn yr ardal lansio ac ymysg yr angorfeydd yn yr harbwr
- Byddwch yn wliadwrus o gerrynt cryf a chflym
- Bydd yn rhaid i bob cwch pŵer sydd yn tynnu sgïwr dŵr neu degan /ddingis gwynt gael dau unigolyn ar ei bwrdd - gyrrwr ac arsyllwr
- Cymrwch ofal gydag offer enchwythedig oherwydd gall y cerrynt neu wynt alltraeth eich cario yn gyflym allan i'r môr
- Cadwch at gyflymdra diogel wrth agosáu at greaduriaid morol - **Peidiwchag aflonyddu bywyd gwyllt yn fwiadol**

Ar y Traeth:

- Parciwch gerbydau / ôl-gerbydau yn synhwyrol - peidiwch â chyfyngu mynediad i eraill a byddwch yn ystyriol o'r llanw
- Byddwch yn arbennig o wliadwrus wrth yrru neu'n symud eich cerbyd ar y llithriad yn meysydd parcio - cadwch i'r cyfyngiad cyflymdra o **5 M.Y.A.** yn yr ardal lansio - fe fydd



cerbydau fydd yn torri'r rheolau yn cael eu gwahardd rhag lansio

- Dim cerbydau, beiciau modur na feiciau cwad ar ytraeth na ar y twyni tywod - mae'n drosedd cosbadwy a dirwy hyd at £20,000
- Rhaid i blant gael eu goruchwyllo gan oedolyn bob amser, yn enwedig ger y dŵr - gofynnwch i'r Harbwr Feistr neu ein Goruchwyliwr Traeth am dag / fand 'gwybodaeth plentyn'
- Os ydych yn gweld rhywun mewn trafferthion **ffoniwch 999** ar unwaith, a gofynnwch am Wylwyr y Glannau, yna cysylltwch â'r Harbwr Feistr neu'r Goruchwyliwr Traeth ar unwaith
- I gael triniaeth am fân anafiadau fe allwch gael cymorth gan yr Harbwr Feistr neu gan y Goruchwyliwr Traeth
- Ni chaniateir cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd Barcud Pŵer, Hwylfyrdio Tir neu Gwibertiau ar y traeth rhwng **Mawrth a Thachwedd**
- Traeth graddfa serth – byddwch yn wylidwrs o ddŵr dwfn a cherrynt cryf
- **PERYGL** - Peidiwch â dringo neu neidio oddi ar y lanfa
- Peidiwch â thyllu na thyrchu yn y twyni tywod - mae'n bosib iddynt gwmpo yn sydyn ac yn annisgwyl
- Ewch a'ch sbwriel gartref neu defnyddiwch y biniau sbwriel neu'r biniau ailgylchu sydd ar y promenâd ac yn y maesydd parcio
- Peidiwch â cherdded eich ci yn yr ardal gwaharddiad cŵn, na'i adael yn rhydd i faeddu'r traeth (gweler y cynllun) - mae'n drosedd cosbadwy a dirwy hyd at £1000. Rhaid cadw cŵn ar dennyn pe bydd cyfarwyddyd
- Peidiwch ag amharu yn fwiadol ar fywyd gwyllt neu ar gynefinoedd morol
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd fydd yn amharu ar fwynhad neu ddiogelwch eraill ar y traeth

MAE'N RHAID CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU SYDD WEDI EU HAMLINELLU YN Y DAFLN HON A CHYDFFURFIO GYDA CHYFARWYDDIADAU'R HARBWR FEISTR NEU SWYDDOG TRAETH ER DIOGELWCH PAWB

BYDDWCH YN DDIOGEL

Mae diogelwch yn yr harbwr ac ar y traeth yn bwysig iawn - byddwch yn ymwybodol o'r peryglon a byddwch yn ddiogel.

RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL:

Harbwr Feistr Aberdyfi

01654 767626 / 07879
433148

Swyddfa Forwrol:

01758 704066

Cyfoeth Naturiol Cymru:

03000 653000

Mewn Argyfng Ffoniwch 999

Tud. 30

Aberdyfi



Twyni Tywod /
Sand Dunes

DIM CYCHOD
NO BOATS

CYFLYMDRA UCHAF
4 KNOTS
MAXIMUM SPEED

SIANEL MORDWYO
NAVIGATION CHANNEL

Ynys
Las

- Gwybodaeth / Information
- Nofodrych / Life Ring
- Swyddfa'r Harbwr / Harbour Office
- Mynediad Anabl i'r Traeth / Disabled Access to Beach
- Caffi / Café
- Lithrfa Cyhoeddus / Public Slipway
- Siopau / Shops
- Toiledau / Toilets
- Promenâd / Promenade
- Parcio / Parking
- Cymorth Cyntaf / First Aid
- Parcio Anabl / Disabled parking
- Caniatau Cŵn / Dogs Allowed
- Dim Cŵn / No Dogs
- Hwyllo / Sailing
- Badau Pŵer / Powercraft
- Gorsaf Dren / Railway Station



4 KNOTS

Ymholiadau / Enquiries
HARBWR FEISTR - 01654 767626
HARBOURMASTER - 07879 433148
VHF Ch 12 / 16

Swyddfa Forwrol / Maritime Office - 01758 704066
Ebost / Email: morwrol@gwynedd.llyw.cymru

Gwelliannau Wal y Cei, Aberdyfi

Arddangosfa gyhoeddus

Dydd Iau 22^{ain} o Fawrth, 2018

Rhwng 14:00 - 19:00

Lleoliad: Neuadd Dyfi



Quay Wall Improvements, Aberdyfi

Public Exhibition

Thursday the 22nd of March, 2018

Between 14:00 - 19:00

Location: Neuadd Dyfi